**Pwyllgor Trwyddedu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd A Cox

**Swyddogion yn bresennol:-**

MS L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Ms K Trilloe, Rheolwr Dros Dro Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Cwnstabl J Roberts - Heddlu De Cymru

## 55 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Bradwick, T. Williams a L. Hooper.

## 56 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 57 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 58 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2021 yn rhai cywir.

**59 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 30.08.21 - 17.10.21**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned fanylion â'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu rhoi yn ystod y cyfnod rhwng 30 Awst 2021 a 17 Hydref 2021.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**60 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**61 Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

1 Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr DT o Aberdâr ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

**62 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod rhwng 01.09.21 a 19.10.21.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2021 a 19 Hydref 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**63 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan Ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 30.08.21 - 17.10.21.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned yr adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 30 Awst 2021 a 17 Hydref 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.54pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**